

Tasg 2

Arian, arian, arian!

1. Dewiswch un o'r sêr yn y **Ffeil-o-ffaith** a chwiliwch ar y we am ragor o wybodaeth amdano. Wedyn, chwiliwch am lun ohono a'i argraffu ac ysgrifennwch fywgraffiad byr – tua 200 gair – yn sôn am y seren rydych chi wedi'i ddewis. Cofiwch gynnwys manylion fel:

- dyddiad geni
- man geni
- teulu
- cefndir
- gyrfa
- llwyddiannau
- hanes presennol

Cofiwch fod yn gryno a chadw at y ffeithiau. Cofiwch hefyd y bydd angen i chi chwilio am wybodaeth mewn mwy nag un ffynhonnell er mwyn gwneud yn siŵr fod y ffeithiau i gyd yn gywir.

2. Wedyn, atebwch y cwestiynau canlynol:

	Cwestiwn	Ateb
1.	Pam dewis y seren arbennig yma?	
2.	Beth sy'n unigryw amdano?	
3.	Beth rydych chi'n ei hoffi fwyaf amdano?	
4.	Pwy yw eich hoff seren chwaraeon chi o Gymru?	
5.	Pam?	
6.	Yn eich barn chi, oes cysylltiad rhwng yr un sy'n ennill yr arian mwyaf a'r un mwyaf talentog?	

7.	Pam?	
8.	Yn eich barn chi, ydy'r sêr ar y rhestr yn derbyn cyflog teg? Pam?	
9.	Pam, yn eich barn chi, nad oes unrhyw ferch ar restr y 10 uchaf?	
10.	Ydych chi'n meddwl y dylai rhywun amlwg arall fod ar y rhestr hon?	
11.	Pam?	
12.	Beth fyddai eich swydd ddelfrydol chi? Faint o gyflog y flwyddyn rydych chi'n meddwl y dylech chi ei gael am wneud y swydd honno?	
13.	Pam?	
14.	O ennill cymaint o arian mewn blwyddyn â Floyd Mayweather, ar beth fyddech chi'n ei wario? Beth am wneud rhestr siopa sy'n dangos cost popeth fyddech chi'n ei brynu, neu sy'n nodi beth fyddech chi'n ei wneud â'r arian?	